**Adran y Prif Weithredwr**
**Chief Executive's Department**
Swyddfa'r Cyngor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

Cyfarfod / Meeting

# Y CYNGOR

# THE COUNCIL

Dyddiad ac Amser / Date and Time

**2.00PM, DYDD IAU, 16 GORFFENNAF 2009**

**2.00PM, THURSDAY, 16 JULY 2009**

Lleoliad / Location

**Siambr Dafydd Orwig**
**Swyddfa'r Cyngor,**
**Caernarfon**

Pwynt Cyswllt / Contact Point

**Eleri Parry**

**(01286) 679601**

**eleriwynparry@gwynedd.gov.uk**

(DOSBARTHWYD/DISTRIBUTED 08/07/09)

**Harry Thomas**
**Prif Weithredwr / Chief Executive**

www.gwynedd.gov.uk

8 Gorffennaf/July 2009

Annwyl Gynghorydd,

**CYFARFOD O GYNGOR GWYNEDD – 16 GORFFENNAF 2009**


**FE'CH GWYSIR TRWY HYN** i gyfarfod o **GYNGOR GWYNEDD** a gynhelir am **2.00PM, DYDD IAU** nesaf, **16 GORFFENNAF 2009 YN SIAMBR DAFYDD ORWIG, SWYDDFA'R CYNGOR, CAERNARFON**, i ystyried y materion a grybwyllir yn y rhaglen a ganlyn.

Dear Councillor,

**MEETING OF GWYNEDD COUNCIL – 16 JULY 2009**

**YOU ARE HEREBY SUMMONED** to attend a meeting of **GWYNEDD COUNCIL** which will be held at **2.00PM** on **THURSDAY** next, **16 JULY 2009 IN SIAMBR DAFYDD ORWIG, SWYDDFA'R CYNGOR, CAERNARFON** to consider the matters mentioned in the following agenda.

Yr eiddoch yn gywir/Yours faithfully,



Prif Weithredwr/Chief Executive

Bydd yr ystafelloedd a ganlyn ar gael i'r grwpiau gwleidyddol yn ystod y bore:-
The following rooms will be available for the political groups during the morning:-

Plaid Cymru - Siambr Dafydd Orwig
Annibynnol/Independent – Ystafell Gwyrfai
Llais Gwynedd – Siambr Hywel Dda
Democratiaid Rhyddfrydol/Liberal Democrats - Ystafell Ogwen
Llafur/Labour – Cefn Siambr Dafydd Orwig/Rear of Siambr Dafydd Orwig

# RHAGLEN

**1 GWEDDI**

Bydd y Cynghorydd Evie Morgan Jones yn agor y cyfarfod gyda gweddi.

**2 YMDDIHEURIADAU**

Derbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

**3 COFNODION**

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi fel rhai cywir gofnodion y cyfarfod o'r Cyngor a gynhaliwyd ar 7 Mai 2009 (tudalennau 1 i 12 o'r gyfrol gofnodion).

**4 DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Derbyn unrhyw ddatganiad o fuddiant personol.

**5 CYHOEDDIADAU'R CADEIRYDD**

Derbyn unrhyw gyhoeddiadau gan y Cadeirydd.

**6 GOHEBIAETH, CYFATHREBIADAU, NEU FUSNES ARALL**

Derbyn unrhyw ohebiaeth, gyfathrebiadau neu fusnes arall a ddygir gerbron yn arbennig dan gyfarwyddyd y Cadeirydd.

**7 MATERION BRYS**

Nodi unrhyw eitemau sy'n fater brys ym marn y Cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

**8 CWESTIYNAU**

Ystyried unrhyw gwestiynau y rhoddwyd rhybudd priodol ohonynt o dan Reol Gweithdrefn 12.

**9 PROTOCOL CYSWLLT AELOD-SWYDDOG**

Cyflwyno adroddiad y Swyddog Monitro. (copi yma – papur ***glas***)

**10 CYNLLUN DATBLYGU UNEDOL GWYNEDD**

Cyflwyno adroddiad y Pennaeth Rheoleiddio, i fabwysiadu Cynllun Datblygu Unedol Gwynedd, yn unol â phenderfyniad Bwrdd y Cyngor yn ei gyfarfod ar 28 Ebrill 2009. (copi yma – papur ***gwyrdd***)

**11 CYFEIRIO'N UWCH YN UNOL Â RHEOL GWEITHDREFN 21**

Adrodd bod y nifer priodol o aelodau wedi rhoddi rhybudd ysgrifenedig eu bod yn dymuno cyfeirio'r materi isod yn uwch.

**PWYLLGOR CYNLLUNIO CANOLOG – 26 MAWRTH 2009**

**Eitem 6 – Ceisiadau Cynllunio**

**(b) Cais C08A/0617/15/AM – llain o dir yn Groeslon, Glynrhonwy, Llanberis. Caernarfon -** Cais amlinellol i adeiladu tŷ unllawr

(i) Adrodd bod y Pwyllgor Cynllunio Canolog yn ei gyfarfod ar 26 Mawrth 2009 wedi penderfynu fel a ganlyn:-

**PENDERFYNWYD gwrthod y cais ar y sail y byddai'n groes i bolisi cynllunio cenedlaethol a'r cyngor a gynhwyswyd yn Natganiad Polisi Cynllunio Interim y Gweinidog 01/2006, Nodyn Cyngor Technegol 6; polisi CH7 Cynllun Datblygu Unedol Gwynedd (drafft fel y'i diwygiwyd) Awst 2008; polisi A1 Cynllun Fframwaith Gwynedd a pholisi 4Ff Cynllun Lleol Arfon Wledig.**

(ii) Cyflwyno adroddiad y Pennaeth Rheoleiddio. (copi yma - papur ***melyn***)

**12 RHYBUDD O GYNNIG**

Yn unol â'r Rhybudd o Gynnig a dderbyniwyd oddi wrtho o dan Reol Gweithdrefn 13, bydd y Cynghorydd Owain Williams yn cynnig fel a ganlyn:-

**"Galwn ar Gyngor Gwynedd i gysylltu'n ddi-oed gyda'r Swyddfa Gartref, i ddatgan ein hanfodlonrwydd a'n siomedigaeth lwyr at y penderfyniad i wrthod i ddwy ferch o Batagonia ymweld â Chymru. Yn ychwanegol, 'rydym yn datgan ein condemniad o'r modd y cafodd y merched eu trin gan yr Awdurdodau Mewnfudo ac eraill yn y maes awyr, cyn eu hanfon yn ôl i Batagonia"**

Derbyniwyd rhybudd trefniadaethol gan yr aelod hefyd yn unol â Rheol Gweithdrefn 13(12) yn gofyn am gael trafod y mater ar y diwrnod yn hytrach na'i gyfeirio i'r pwyllgor perthnasol

# AGENDA

**1 PRAYER**

Councillor Evie Morgan Jones will open the meeting with a prayer.

**2 APOLOGIES**

To receive any apologies for absence.

**3 MINUTES**

The Chairman shall propose that the minutes of the meeting of the Council held on 7 May 2009 be signed as true records (Pages 1 to 12 of the minutes volume).

**4 DECLARATION OF PERSONAL INTEREST**

To receive any declaration of personal interest.

**5 THE CHAIRMAN'S ANNOUNCEMENTS**

To receive any Chairman's announcements.

**6 CORRESPONDENCE, COMMUNICATIONS OR OTHER BUSINESS**

To receive any correspondence, communications or other business brought forward at the request of the Chairman.

**7 URGENT BUSINESS**

To note any items which are urgent business in the opinion of the Chairman so they may be considered

**8 QUESTIONS**

To consider any questions the appropriate notice for which have been given under Procedural Rule 12.

**9 PROTOCOL FOR MEMBER-OFFICER CONNECTION**

To submit the report of the Monitoring Officer, (copy herewith – ***blue*** enclosure)

## 10 GWYNEDD UNITARY DEVELOPMENT PLAN

To submit the report of the Head of Regulatory, to adopt the Gwynedd Unitary Development Plan, in accordance with the Council Board's resolution at its meeting on 28 April 2009. (copy herewith – ***green*** enclosure)

## 11 REFERENCE UP IN ACCORDANCE WITH PROCEDURAL RULE 21

To report that the appropriate number of members have given written notice that they wish to refer the following matter up.

**CENTRAL PLANNING COMMITTEE 26 MARCH 2009**

**Item 6 – Planning Applications**

**(b) Application C08A/0617/15/AM – land at Groeslon, Glynrhonwy, Llanberis, Caernarfon -** Outline application for the erection of a single storey dwelling

(i) To report that the Central Planning Committee at its meeting on 26 March 2009 resolved as follows:-

**RESOLVED to refuse the application on the grounds that it is contrary to national planning policies and the advice in the Ministerial Interim Planning Policy Statement 01/2006; Technical Advice Note 6; policy CH7 of the Gwynedd Unitary Development Plan (draft as amended) August 2008; policy A1 of the Gwynedd Structure Plan and policy 4Ff of the Rural Arfon Local Plan.**

(ii) To submit the report of the Head of Regulatory. (copy herewith - ***yellow*** enclosure)

## 12 NOTICE OF MOTION

In accordance with the notice of motion received under Procedural Rule 13, Councillor Owain Williams will propose as follows:-

**"We call upon Gwynedd Council to contact the Home Office immediately to express our total dissatisfaction and disappointment at the decision to refuse permission for two girls from Patagonia to visit Wales. In addition, we express our condemnation at the way the girls were treated by the Immigration Authorities and others at the airport, before sending them back to Patagonia."**

The procedural motion was also received from the member in accordance with Procedural Rule 13(12) requesting that the matter be discussed on the day instead of being referred to the relevant committee.